**LC1184**

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid a Gorfodi) (Cymru) 2005

Mae’r Rheoliadau yma’n darparu ar gyfer gweithredu a gorfodi Rheoliad EC 183/2005 sy’n nodi gofynion ar gyfer hylendid bwyd anifeiliaid.

### Rheol Sefydlog 11.7

Mae’r pwyntiau canlynol wedi’u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

Mae’r diffiniad o "awdurdod bwyd anifeiliaid" yn rheoliad 2(1) wedi’i ddrafftio yn nhermau adran 67(1) o Ddeddf Amaethyddiaeth 1970. Awdurdodau bwyd anifeiliaid Lloegr sydd wedi’u nodi yn adran 67(1): yn adran 67(1A) y mae awdurdodau bwyd Cymru wedi’u nodi [Rheol Sefydlog 11.7(v)].

Mewn sawl un o’r rheoliadau, mae’r croesgyfeiriadau yn y testun Cymraeg yn anghywir am nad ydyn nhw wedi nodi’r ddarpariaeth y cyfeirir ati drwy ddefnyddio’r wyddor Gymraeg. Yn nhestun Cymraeg rheoliad 10(a), dylai’r croesgyfeiriad fod yn groesgyfeiriad at baragraff 2(d) ac nid at baragraff 2(e) ac yn rheoliad 18(3)(b) dylai’r croesgyfeiriad fod yn groesgyfeiriad at reoliad 17(1)(ch). Yn yr un modd, yn rheoliad 20(2), dylai’r croesgyfeiriad fod yn groesgyfeiriad at reoliad 17(1)(ch). [Rheol Sefydlog 11.7 (v)].

Yn rheoliad 15(2)(a), dylai’r cyfeiriad at "ail-fewnforio" fod yn "ail-allforio". Yn rheoliad 18(2), dylai’r gair "wneud" gael ei fewnosod ar ôl "drwy". [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Dydy’r testun Cymraeg yn y llinellau llawn ar ddiwedd rheoliad 18(3) ddim yn cyd-fynd â’r testun Saesneg. Yn y testun Saesneg, mae’n eglur bod apêl yn cael ei gwneud drwy wneud cwyn am orchymyn; ond mae’r testun Cymraeg yn awgrymu mai wrth ddwyn yr apêl y gwneir cwyn am orchymyn.

Mae rheoliad 21(4) yn galluogi llys i osod gorchymyn gwahardd, sy’n gwahardd person rhag cymryd rhan mewn rheoli unrhyw fusnes bwyd anifeiliaid. Mae’r testun Cymraeg yn awgrymu y caniateir gosod gorchymyn gwahardd ar berson sy’n cymryd rhan ar hyn o bryd mewn rheoli busnes bwyd anifeiliaid ond dydy e ddim yn awgrymu y caniateir i berson gael ei wahardd rhag cymryd rhan mewn rheoli unrhyw fusnes bwyd anifeiliaid. [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

Mae rheoliad 30(1) yn ymdrin â’r weithdrefn sy’n ymwneud â samplau i’w dadansoddi a gymerir yn unol â rheoliad 25(6). Er hynny, mae rheoliad 25(6) yn cyfeirio at y camau sydd i’w cymryd os caiff hysbysiad sydd wedi’i roi o dan reoliad 25(2)(a) ei dynnu'n ôl neu os bydd ynad heddwch yn gwrthod condemnio deunydd. Yn rheoliad 24 y ceir y darpariaethau sy’n ymwneud â chymryd samplau ac felly at reoliad 24(6) y dylid cyfeirio i fod yn gywir. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Gall y gwallau drafftio a’r anghysondebau uchod gael eu cywiro drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau.

## Sylwadau

Mae pwyntiau fformadu, sy’n addas i’w cywiro wrth gyhoeddi’r Rheoliadau, wedi’u mynegi i’r cyfreithiwr a’u drafftiodd.

## Glyn Davies AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 29 Tachwedd 2005